Mawrth 2026

# Cylchlythyr

## Digwyddiadau i ddod

30.03.26 - Gwyliau Pasg yn cychwyn
13.04.26 - HMS i staff (dim ysgol i ddisgyblion)
14.04.26 - Diwrnod cyntaf nol i ddisgyblion
15+16.04.26 - Nosweithiau rieni
20.04.26 - Cyflwyniad Storey Arms i rieni
23.04.26 - Blwyddyn 3 a 4 - Tag rygbi
27.04.26-29.04.26 - Bl 5 i Storey Arms

## Staffio

Diolch enfawr a ffarwel i Miss Noon-Jones sydd wedi bod yn dysgu disgyblion blwyddyn 3 ers mis Medi. Rydym yn ddiolchgar iddi am ei holl waith eleni ac yn dymuno pob hwyl iddi.

## Ffrindiau





Diolch yn fawr i'r ffrindiau am eu gwaith yn ystod y tymor diwethaf ac am baratoi yr Helfa Basg yr wythnos hon. Mae nifer o adnoddau wedi cael eu archebu i'r disgyblion gan y Ffrindiau ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am y cyfraniadau eto y tymor hwn.

## Llwyddiannau/Digwyddiadau





Diolch yn fawr iawn i Cardiff Racing am ddod mewn i rannu gwybodaeth am eu gwaith ac mwynheuodd y disgyblion gael cyfle i drio'r car rasio allan.



Da iawn i bawb a wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod ysgol ac Eisteddfod Clwstwr. Llongyfarchiadau i Sia am ennill y gadair eleni am ei stori 'Ffrind da'





Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn cael gwersi nofio. Dyma disgyblion blwyddyn 3 gyda'u tystysgrifau. Da iawn i bawb a diolch i Met Caerdydd a swyddogion yr Urdd am y gwersi gwych.

Instgram yr Ysgol
ysgol_penygroes

Mawrth 2026

# Cylchlythyr

## Llwyddiannau/Digwyddiadau



Cafodd pawb hwyl yn dathlu Dydd Gwyl dewi eleni gyda digwyddiadau Cymreig ac Eisteddfod ysgol hyfryd.




Diolch i Miss Nolan a’r disgyblion am fynd i Dy Enfys i diddanu’r trigolion gyda’u canu.



Hyfryd oedd gweld y disgyblion yn mwynhau llyfrau yn ystod Diwrnod y Llyfr. Diwrnod llawn hwyl wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau llyfrau.




Hoffwn ddymuno Pasg Hapus i Deulu Pen-y-Groes
Edrychwn ymlaen at weld pawb ar 14.04.26

## Presenoldeb

Presenoldeb yr ysgol hyd yn hyn yw 93.6%

Ein targed yw 95%

Mae presenoldeb cyson yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod eich plentyn/plant yn cyrraedd eu llawn potensial

**Instgram yr Ysgol**
**ysgol_penygroes**